

PROSIECT 100 STORI

Stori Jon



CEFAIS FY MAGU GYDA BRAWD A OEDD GAN DDYSLECSIA. MAE’N AIR MOR FACH. DYSLECSIA. ‘A YW HYNNY'N GOLYGU NAD YW'N GALLU SILLAFU?’ DYNA BETH FYDDAI FY FFRINDIAU I’N EI OFYN I MI PAN FYDDWN I’N DWEUD WRTHYNT FOD FY MRAWD MAWR YN DDYSLECSIG.

DYNA BETH MAE'R RHAN FWYAF O BOBL YN EI FEDDWL. OND ROEDD EFFAITH DYSLECSIA FY MRAWD YN BELLGYRHAEDDOL AC YN CAEL EFFAITH LLAWER MWY ARNO EF AC, YN EI DRO, AR BOB UN OHONOM NI, NA DRYSU EI LYTHRENNAU.

FEL PLENTYN, RWY’N COFIO POBL WAHANOL YN YMWELD Â’R TŶ I SIARAD GYDA FY RHieni. RWY’N COFIO MURIEL YN ARBENNIG. ROEDD HI'N SEICOLEGYDD ADDYSGOL. NID OEDDWN YN GWYBOD BETH OEDD HYNNY'N EI OLYGU AR Y PRYD, OND ROEDDWN I'N GWYBOD BOD RHYWBETH ARBENNIG AM FY MRAWD.

PAN ROEDD HI’N BRYD IDDO FYND I’R YSGOL, PENDERFYNODD FY MAM ADDYSGU FY MRAWD GARTREF. I MI, A OEDD DAIR BLYNEDD YN IAU, ROEDDWN I’N MEDDWL EI FOD YN LWCUS IAWN. ROEDD YN RHaid I MI FYND I’R YSGOL TRA’R OEDD EF YN CAEL AROS ADREF GYDA MAM. RWY’N EU COFIO’N GWNEUD Y MAP TRI DIMENSIWN MWYAF RHYFEDDOL O’R BYD. ROEDD FY MAM YN ARTIST, FELLY ROEDD LLAWER O BROSIECTAU PAPIER MACHE, PEINTIO A GLUD.

ROEDD EIN TŶ WEDI’I ORCHUDDIO Â BANERI WEDI’U PEINTIO’N LLACHAR, A’R MAP MAWR HWN, WEDI’I FRITHO Â FFEITHIAU A FFIGURAU AM YR HOLL WLEDYDD GWAHANOL. BYDDANT YN CYFANSODDI CANEUON AC YN EU RECORDIO YN EU CANU – YMUNAIS Â’R GWEITHGAREDD HWN. DYWEDODD FY MAM EI BOD HI WEDI DOD O HYD I Ffordd o ddysgu'r holl bynciau IDDO DRWY WNEUD PETHAU'N BLESERUS IDDO.

YN YR YSGOL, ROEDD WIR ANGEN 1:1 ARNO, OND NI CHYNHIGIWDYD HYNNY IDDO ERIOED, AC NI CHAFODD DDIAGNOSIS TAN EI FOD YN 17 OED. ADDAWYD DATGANIADAU A CHYMORTH IDDO, OND NI CHAFODD UNRHYW BETH.

‘ROEDDEM NI’N TEIMLO BOD PAWB WEDI ANGHOFIO AMDANOM NI’, MEDDAI FY MAM.

FE WNAETH FY MAM WAITH MOR DDA O FY AMDDIFFYN RHAG Y REALITI LLYM YR HYN YR OEDD HI, FY NHAD A FY MRAWD YN MYND DRWYDDO, FEL MAI DIM OND YN DDIWEDDARACH MEWN BYWYD Y DYSGAIS PA MOR ANODD YR OEDD HI WEDI BOD MEWN GWIRIONEDD. FE WNAETH FY MAM FRWYDRO I FY MRAWD DDERBYN Y CYMORTH YR OEDD EI ANGEN ARNO, A PHAN DDAETH HI'N BRYD IDDO FYND I'R YSGOL UWCHRADD, NID OEDD HI’N GALLU GODDEF Y SYNIAD O FAINT Y BYDDAI'N DIODDEF. ROEDD WEDI CAEL TAITH ANODD HYD YMA.



NI CHAFODD FY MRAWD DDIAGNOSIS FFURFIOL TAN YR OEDD YN 17 MLWYDD OED, AR ÔL BRWYDRO DRWY GYDOL EI ADDYSG. NID EI ADDYSG YN UNIG A WNAETH DDIODDEF. YN ÔL UNDERSTANDED.ORG, MAE GAN TUA 29% O BLANT SYDD AG ANABLEDD DYSGU ANHWYLDER GORBRYDER HEFYD. AC MAE'R GYMDEITHAS DYSLECSIA RYNGWLADOL YN NODI Y GALL DYSLECSIA HEFYD ARWAIN AT HUNAN-DDELWEDD Wael, ISELDER A PHROBLEMAU CYMDEITHASOL.

NI CHAFODD JON GYMORTH GYDA'I DDIAGNOSIS, AC NID OEDD YN GWYBOD SUT I OFALU AM EI IECHYD MEDDWL UNWAITH YR OEDD YN OEDOLYN. ROEDD FY MAM AR EI PHEN EI HUN.

NI ALLWN BYTH FOD YN SICR PAM, OND CYMERODD FY MRAWD EI FYWYD EI HUN YN 22 MLWYDD OED.

WRTH FEDDWL YN ÔL NAWR, BYDDAF YN GOFYN I FY MAM BETH FYDDAI WEDI GWNEUD BYWYD YN HAWS? MAE'R BYD WEDI NEWID LLAWER MEWN 30 MLYNEDD, OND MAE RHAI PETHAU YN AROS YR UN PETH. Y TRI PHETH PWYSICAF I BOB UN OHONOM FEL RHIENI; FY MAM, FI FY HUN, AC UNRHYW UN OHONOGH SY'N MAGU PLENTYN SYDD AG ANGHENION YCHWANEGOL YW GWYBODAETH, CYMORTH A HYDER.



BELLACH, RWY’N GWEITHIO YM MAES CYMORTH I DEULUOEDD, AC NID YW PROFIAD FY MAM O FAGU EI MAB GWERTHFAWR, YR YMDRECHODD MOR GALED DROSTO, YN BYTH YMHELL O FY MEDDWL. RWY'N SIARAD Â RHieni, AC MAE'R UN TRI PHETH YN CODI DRO AR ÔL TRO. MAENT EISIAU GWYBODAETH, CYMORTH A HYDER. OS GALL FY NGWAITH WNEUD UNRHYW WAHANIAETH I RIENI SY'N EI CHAEL HI’N ANODD, BYDDAF YN TEIMLO FY MOD WEDI DEFNYDDIO PROFIAD FY NHEULU ER LLES.

GOFYNNAF EIN BOD NI FEL GWEITHWYR PROFFESIYNOL YN YMDRECHU I GYDWEITHIO Â’N GILYDD, A GYDA RHieni, I SICRHAU BOD LLWYBRAU CYFATHREBU’N AGORED, EIN BOD NI’N SIARAD AC YN GWRANDO, EIN BOD NI’N DEALL MAI RHieni SY’N ADNABOD EU PLENTYN ORAU, EIN BOD NI’N GWEITHIO I WELLA MYNEDIAD AT WYBODAETH A’N BOD NI’N CREU CYFLEOEDD I RIENI GEFNOGI EI GILYDD A DERBYN CYMORTH GAN WASANAETHAU. TRWY HYN, BYDD EU HYDER YN TYFU, EU HYDER YNOM NI A'U HYDER YNDDYNT EU HUNAIN.

